

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Swyddi yn Nhor-faen Jobs in Torfaen

Q11 Lynne Neagle: Will the First Minister make a statement on Welsh Assembly Government efforts to create and safeguard jobs in Torfaen? OAQ0801(FM)

C11 Lynne Neagle: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu a diogelu swyddi yn Nhor-faen? OAQ0801(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Since the inception of the Assembly, 54 offers of regional selective assistance worth £32 million have been made to companies in Torfaen. A further 69 offers of Assembly investment grants worth £2.1 million have also been made. Together, these offers were forecast to assist in the creation or safeguarding of over 4,000 jobs.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Ers sefydlu'r Cynulliad, gwnaed 54 cynnig i roi cymorth rhanbarthol dewisol, gwerth £32 miliwn, i gwmnïau yn Nhor-faen. Cynigiwyd hefyd 69 o grantiau buddsoddi pellach, gwerth £2.1 miliwn. At ei gilydd, rhagwelwyd y byddai'r cynigion hyn yn helpu i greu neu i ddiogelu dros 4,000 o swyddi.

Ysmygu Smoking

Q12 Lorraine Barrett: What action is the Welsh Assembly Government taking to help people to stop smoking? OAQ0781(FM)

C12 Lorraine Barrett: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu? OAQ0781(FM)

The First Minister: Smoking is the single greatest cause of preventable illness and premature death in Wales. Smoking cessation is a priority area within the Assembly Government's tobacco control programme, which is why we fund a community-based smoking cessation service across Wales, a national bilingual smoking cessation helpline and targeted motivational advertising to encourage and support smokers to quit.

Y Prif Weinidog: Ysmygu yw prif achos salwch ataliadwy a marwolaeth gynnar yng Nghymru. Mae rhoi'r gorau i ysmygu yn faes sy'n cael blaenoriaeth yn rhaglen rheoli tybaco Llywodraeth y Cynulliad, a dyna pam ein bod yn ariannu gwasanaeth yn y gymuned i helpu pobl ledled Cymru i roi'r gorau i ysmygu, llinell gymorth ddwyieithog ar gyfer pobl sydd am roi'r gorau i ysmygu ac ymgyrch hysbysebu sy'n targedu ysmwgwyr i'w cymell, eu hannog a'u helpu i roi'r gorau iddi.

Wythnos Ymwybyddiaeth Strôc Stroke Awareness Week

Q13 Sandy Mewies: Will the First Minister make a statement on stroke awareness week? OAQ0800(FM)

The First Minister: Stroke awareness week is an annual health campaign that aims to increase public knowledge of stroke and its effects on health and general wellbeing. The Welsh Assembly Government is committed to improving standards of care for stroke and has set service and financial framework targets to help achieve this.

C13 Sandy Mewies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wythnos ymwybyddiaeth strôc? OAQ0800(FM)

Y Prif Weinidog: Ymgyrch iechyd flynyddol yw wythnos ymwybyddiaeth strôc a'r nod yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o strôc a'i effaith ar iechyd a lles cyffredinol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwmo i wella safonau gofal ar gyfer strôc ac mae wedi pennu targedau fframwaith ariannol a gwasanaeth i sicrhau hyn.

Pensiynau Allied Steel & Wire Allied Steel and Wire Pensions

Q14 Owen John Thomas: What recent discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Work and Pensions with a view to expediting the payments of the pension entitlements of the former employees of Allied Steel and Wire? OAQ0812(FM)

The First Minister: I spoke to the Secretary of State for Work and Pensions on 6 September about the financial assistance scheme. The Secretary of State agreed that the scheme needed to be reviewed as a priority, and agreed to look at the possibility of increasing the money available to the scheme and scheme members' coverage from it.

C14 Owen John Thomas: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ynglŷn â chyflymu'r broses o dalu hawliadau pensiwn i gyn-weithwyr Allied Steel and Wire? OAQ0812(FM)

Y Prif Weinidog: Siaradais â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar 6 Medi ynglŷn â'r cynllun cymorth ariannol. Cytunodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod angen rhoi blaenoriaeth i'r gwaith o adolygu'r cynllun a chytunodd i ystyried y posibilrwydd o gynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer y cynllun a'r hyn a gynnigir i aelodau'r cynllun.

Tlodi Tanwydd Fuel Poverty

Q15 Jocelyn Davies: Will the First Minister make a statement on fuel poverty? OAQ0789(FM)

The First Minister: Lifting vulnerable households out of fuel poverty by 2010 remains our goal. The Living in Wales survey will shortly provide us with a revised estimate of how many households are living in fuel poverty, which will inform future investment plans, including those for the home energy efficiency scheme.

C15 Jocelyn Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dlodi tanwydd? OAQ0789(FM)

Y Prif Weinidog: Ein nod, o hyd, yw helpu teuluoedd sy'n agored i niwed i godi o dlodi tanwydd erbyn 2010. Bydd yr arolwg, Byw yng Nghymru, yn rhoi amcangyfrif diwygiedig inni gyda hyn o nifer y teuluoedd sy'n byw mewn tlodi tanwydd, a chaiff y wybodaeth ei defnyddio fel sail i gynlluniau buddsoddi yn y dyfodol, gan gynnwys y rheini ar gyfer y cynllun effeithlonrwydd ynni yn y cartref.